







VOLUNTEERING MATTERS

# Ein Heffaith

## Ebrill 2020 - Mawrth 2021





# Rhagair

## Rwyf wedi bod yn gwirfoddoli gyda Volunteering Matters ers cwta pedair blynedd. Rwy'n gwirfoddoli gan mai dyna yw'r peth iawn i'w wneud.

Credaf y dylem ni i gyd wneud beth bynnag y gallwn ni i helpu ein gilydd. Nid oes rhaid iddo fod yn rhywbeth mawr.

Cyn y pandemig, arferwn wirfoddoli yn Lifelines yn Brighton. Ymhlith pethau eraill, byddwn yn cynnal nosweithiau ffilm a phrynhawniau coffi ar gyfer pobl a oedd yn byw mewn llety â chymorth. Ond ar ddechrau Covid-19, aethom ati gyda'n gilydd a chynyddais yn sylweddol fy oriau yn gwirfoddoli. Yn fuan iawn, roeddwn yn cael galwadau gan bobl hŷn a oedd angen cymorth gyda siopa a chasglu presgripsiynau. Fi oedd y llais cyfeillgar ar ben arall y ffôn, yn sicrhau nad oeddynt yn teimlo'n unig, cyn cysylltu â chydweithwyr ac elusennau eraill yn Brighton er mwyn iddynt gael y cymorth yr oedd ei angen arnynt. Yn ogystal, deuthum yn gyfaill dros y ffôn, cynhaliais fore coffi rhithiol, a chroesawu pobl i amrywiaeth o weithgareddau er mwyn iddynt gadw mewn cysylltiad. Rwyf hefyd wedi bod yn gwirfoddoli ar y prosiect Getting Together Matters, yn cydlynu gweithgareddau i gysylltu pobl yn genedlaethol. Erbyn hyn, rwy'n cysylltu gyda phobl ledled y Deyrnas Unedig (DU), ac yn eu cefnogi.

Rwyf wedi cwrdd â phobl ryfeddol ac mae'n brofiad arbennig cael clywed am eu bywydau, ac yn rhai achosion, dod yn rhan o'u bywydau. Rwy'n credu yn y dywediad "mae'r olwyn yn troi", felly rwy'n gobeithio y bydd rhywun yn fy nghefnogi fi pan fyddaf mewn angen. Pleser o'r mwyaf gennyf oedd cynnig fy amser, fy sgiliau swyddfa, a'm sgiliau sgwrsio - dyna ffordd gwrtais o ddweud fy mod yn siarad fel melin glep!

Ym mis Awst 2020, cefais fy nyfarnu ag MBE am fy ngwaith gwirfoddoli yn ystod Covid. Cefais fy syfrdanu o gael fy nghydnabod fel hyn, ond am anrhydedd ydyw. 'Pam fi?' meddyliais. Dywedodd y tîm yn Volunteering Matters am wahaniaeth a wnaeth fy amser i'r bobl a oedd yn cael eu cefnogi ac i'r tîm o wirfoddolwyr a staff. I wirfoddolwyr eraill, gwn y bydd nifer ohonoch yn credu eich bod chithau wedi cael cymaint o fudd â'r bobl y gwnaethoch gysylltu â nhw. Gwn fy mod innau. Anrhydedd i mi yw fy mod wedi cael sgwrsio â chynifer o bobl ddiddorol ac arbennig. I'r rhai ohonoch sy'n gwirfoddoli, cewch fod yn falch o'r cyfraniad cadarnhaol yr ydych wedi'i wneud at eich cymuned. Rydych chi'n wych.

**Theresa McIvor, Gwirfoddolwr gyda Lifelines a Getting Together Matters**




# Rhagair

## Drwy gydol y flwyddyn ddiwethaf, mae gwirfoddolwr wedi bod yn fy mentora fel rhan o Raglen Grandmentors Volunteering Matters.Programme.

Rwyf wastad wedi bod â nodau, ond rwyf angen mymryn o gymorth i'w cyflawni, ac mae Jim, fy ngwirfoddolwr, wedi gwneud hynny.

Mae wedi rhoi gobaith i mi ac wedi fy addysgu i beidio â phoeni cymaint. Fy mhrif nod oedd mynd i'r brifysgol, ond roedd angen i mi roi trefn ar bethau ymarferol a'm harian. Mae Jim a finnau yn cael sgyrsiau da ac rwy'n ymddiried ynddo. Erbyn hyn mae gennyf fy fflat fy hun, a chefais gymorth ganddo i'w addurno a'i drin. Ac mae wedi bod o gymorth i mi ddysgu am fy ardal leol yn well, a theimlo'n rhan ohoni. Gwn fod y profiad yn fuddiol i Jim hefyd oherwydd ei fod yn hoffi rhoi cymorth i bobl. Rwy'n bwriadu dod yn llysgennad ieuenctid er mwyn i mi helpu pobl eraill fel finnau.

Rwyf wedi cyflawni fy mhrif nod, byddaf yn mynd i'r brifysgol! Rwyf yn hynod hapus a balch o gael Jim a Volunteering Matters yn rhan o'm bywyd, maen nhw'n deulu i mi nawr.

**Eyob Hagos, Mentai, Grandmentors, rhaglen ar gyfer pobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal.**

# Cynnwys




**Cefndir Volunteering Matters** **4**

- Grym Cymorth gan Wirfoddolwyr yn ystod y pandemig Covid-19 4
- Gwneud gwahaniaeth mewn Cymunedau lleol 5

**Cipolwg ar ein hymateb** **6**

**Volunteering Matters yn:** **7**

- Lloegr 7
- Cymru 15
- Yr Alban 18

**Rhaglenni cenedlaethol sydd â ffocws lleol:** **20**

- Family Mentors 20
- Grandmentors 21
- Employee Volunteering 22
- Y Mudiad #byddaf 23

**Cefnogi Llywodraeth y DU** **23**

- National Volunteering Coordination Cell 23
- Journey Makers 24
- Cyfeillio Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi 25
- Norfolk Knitters and Stitchers 25
- Profion Cyflym mewn Ysgolion 25








# Ein cefndir

## Yn Volunteering Matters rydym yn dwyn pobl ynghyd er mwyn goresgyn rhai o faterion mwyaf cymhleth cymdeithas drwy rym gwirfoddoli. Mae hyn yn datblygu cymunedau cryfach ac yn galluogi i bawb ffynnu.

Rydym yn gweithio gyda phartneriaid lleol, gan droi gwybodaeth ac egni lleol yn weithredoedd a chynnydd. Gan ein bod ni'n elusen genedlaethol, rydym yn gwneud y gwaith hwn ar raddfa eang.

## Grym Cymorth gan Wirfoddolwyr yn ystod Covid-19

Dengys yr adroddiad hwn yr effaith a gafodd ein gwirfoddolwyr rhwng 1 Ebrill 2020 a 31 Mawrth 2021 – blwyddyn ers dechrau Covid-19.

Drwy Volunteering Matters, mae gwirfoddoli a gweithredu cymdeithasol wedi galluogi llu o gymorth i'r rhai sydd fwyaf mewn angen, a'u cymunedau, gan eu helpu i lywio'r heriau heb eu tebyg yn ddiogel. Mae ein gwirfoddolwyr wedi cefnogi partneriaid eraill o fewn elusennau, y GIG ac Awdurdodau Lleol hefyd.

Mae'r adroddiad hwn yn pwysleisio peth o'n gwaith gwirfoddoli creadigol a'n gweithredoedd cymdeithasol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Er mwyn cyflawni hyn, dan amgylchiadau'r pandemig, gwnaethom fuddsoddi mewn technoleg newydd i alluogi mentora a chyfeillio ar-lein, gwnaethom ail-drefnu staff er mwyn cyflymu'r gwaith o recriwtio ac archwilio cefndiroedd gwirfoddolwyr a chynnig datrysiadau gwirfoddoli newydd mewn cymunedau na chânt sylw digonol.

Cafodd gwirfoddolwyr eu sgrinio a chawsant y cymorth a'r arweiniad gofynnol ynglŷn â sut i wirfoddoli yn ddiogel, gan gynnwys mynediad at gyfarpar diogelu personol (PPE).

I sicrhau bod pobl yn cael eu cysylltu'n ddiogel, gwnaethom ddarparu hyfforddiant ac adnoddau ar-lein a'u cyhoeddi ar draws y sector elusennau a gwirfoddoli.



# Ein cefndir

## Gwneud gwahaniaeth mewn cymunedau lleol

Yn Volunteering Matters, rydym yn credu bod gan gymunedau y grym, y wybodaeth a'r egni i wella eu hunain o'r tu mewn a'n bod fwyaf effeithiol pan fyddwn yn gweithio gyda phobl, yn hytrach nag ar eu rhan – ac rydym yn cyflawni hyn gyda phartneriaid lleol.

Gweithiwn gyda gwirfoddolwyr i wneud gwahaniaeth go iawn i'r pethau sy'n bwysig iddynt, o ymatebion ar unwaith i gyflawni newid hirdymor. Rydym yn galluogi gwirfoddolwyr i ddefnyddio eu gwybodaeth leol a'u profiadau mewn bywyd a, gyda'n gilydd, rydym yn mynd i'r afael â phroblemau cymhleth. Mae pob prosiect sydd wedi'u crybwyll yn yr adroddiad hwn yn cefnogi un neu fwy o'r meysydd hyn:

**Lleihau unigedd cymdeithasol ac unigrwydd**

**Gwella iechyd meddwl a chorfforol**

**Sicrhau bod pobl ifanc yn gallu arwain newid**

**Magu sgiliau, hyder a chyfleoedd**



# Cipolwg o'n blwyddyn

**Ledled Cymru, Yr Alban a Lloegr,**

**8,711** **o wirfoddolwyr wedi cefnogi** **20,769** **o bobl.**

Arweiniodd ein gwirfoddolwyr newid mewn dros **50** cymunedau lleol, gan adeiladu ar bartneriaethau lleol cryf

**243** care experienced young people worked towards their goals with the support of Grandmentor Volunteers

**1,443** gwirfoddolwyr o'n rhaglen Retired a chefnogodd ein Rhaglen Senior Volunteers **3,542** o bobl

---

**276** volunteers supported **910** people to achieve their family's aims through the Family Mentors and Family Supporters programme

**1,727** o bobl wedi gwirfoddoli trwy ein Rhaglenni Cenedlaethol yn cefnogi **2,232** o bobl

Drwy ein rhaglen Employee Volunteering, **932** o wirfoddolwyr wedi cefnogi **1,927** pobl yn ein cymunedau lleol

---

In Scotland, Action Earth **121** projects ran by **3,312** volunteers

Cefnogodd **84** gwirfoddolwyr llawn amser **419** **o bobl**

I gydnabod eu cyflawniadau rhyfeddol, cafodd gwirfoddolwyr dros **8** **o wobrau allanol, gan gynnwys** **2** **MBEs**




# Volunteering Matters yn Lloegr

## Brighton



**"Mae'r grwpiau wedi bod o fudd i mi ymdopi'n ymarferol ac yn emosiynol gyda'r sefyllfa heriol yr ydym yn ei chanol hi"** Jean, Brighton

## Lifelines and Getting Together Matters

Mae'r prosiect **Lifelines** yn Brighton yn dwyn ynghyd pobl fel gwirfoddolwyr sy'n cynnal gweithgareddau ac fel cyfranogwyr. Drwy weithgareddau a chymorth un i un, mae pobl hŷn yn aros yn fwy heini ac ymgysylltiedig â'u cymunedau. Roedd y gweithgaredd hwn a gafodd ei arwain gan wirfoddolwyr yn hollbwysig yn ystod y pandemig.

Ar ddechrau'r cyfnod clo, aeth y staff a'r tîm o wirfoddolwyr ati yn gyflym i sefydlu ffyrdd i bobl gadw cyswllt ag aelodau hŷn ac unig yn y gymuned drwy'r post, dros y ffôn ac ar-lein. Yn fuan iawn, cafodd cannoedd o bobl unig eu cysylltu drwy weithgareddau grŵp, megis cwisiau a Pilates i gyfeillio a chymorth siopa teilwredig. Cafodd un o gwisiau ar-lein Lifeline ei gynnwys ar BBC News at Six.

- **395** o bobl 50+ oed wedi cysylltu â'r prosiect **Lifelines**.
- **102** o wirfoddolwyr gweithredol.
- Dros **400** o deithiau i gasglu presgripsiynau a siopa wedi'u cwblhau gan wirfoddolwyr ar ran pobl hŷn a oedd yn gwarchod eu hunain yn Brighton a Hove yn ystod y flwyddyn.
- **52** o bobl wedi'u paru â chyfeilliwr dros y ffôn.



Yn dilyn effaith anhygoel y gweithgareddau hyn, sefydlodd Volunteering Matters fersiwn genedlaethol o'r rhaglen, **Getting Together Matters** sydd, ynghyd â Lifelines, wedi dwyn bron i **500 o bobl ynghyd** i gymryd rhan mewn gweithgareddau, ond yn bwysicach fyth, i rannu'r cysylltiad a chefnogi eraill.



# Ipswich

## Youth Social Action i gefnogi teuluoedd mewn unigedd posibl

Gyda phryderon ynghylch llesiant a chysylltedd eraill, datblygodd Youth Social Action yn Ipswich gyfres hwyliog ac addysgiadol o becynnau gweithgareddau i gefnogi teuluoedd sydd mewn risg o unigedd cymdeithasol. Aeth y gwirfoddolwyr ifanc ati i greu'r pecynnau, gan ganolbwyntio ar y cymeriadau ffug Astra a Patrick sy'n dangos sgiliau gwytnwch. Cafodd y pecynnau eu targedu tuag at blant ond roeddynt hefyd yn cynnwys cysylltiadau at rwydweithiau cymorth lleol ar gyfer y teuluoedd sy'n derbyn y pecynnau.

Datblygodd gwirfoddolwyr Youth Social Action y pecynnau gyda phartneriaid lleol, gan gynnwys **Ipswich Museum, Wolsey Theatre** a **Suffolk Libraries** i ddarparu adnoddau i blant ar draws y dref. Roedd y pecynnau yn canolbwyntio ar bynciau gwahanol bob tro, gan gynnwys negeseuon iechyd, ar gyfer gwahanol gymunedau ar draws Ipswich.

Am eu rôl yn y pecynnau, enillodd Ipswich Museum Wobr Effaith Gymunedol fel rhan o **Wobrau Amgueddfeydd a Threftadaeth Cenedlaethol**. I gydnabod y gweithredu cymdeithasol hollbwysig hwn, enillodd y gwirfoddolwr **Lanai Collis-Phillips Wobr Dinesydd Ifanc y Rotari ym Mhrydain Fawr ac Iwerddon**. Arweiniodd Lanai adroddiad gan Brifysgol Suffolk, a oedd yn pwysleisio effaith Covid-19 ar bobl ifanc.

Yn ystod y flwyddyn, cafodd **1450 o becynnau** eu cyhoeddi mewn 5 iaith wahanol a chyrraedd teuluoedd o 13 cenedl wahanol.

**"Diolch o galon am yr holl becynnau a gafodd eu darparu i'n disgyblion yn ystod y cyfnod clo. Maent wedi gwneud gwahaniaeth go iawn ac wedi helpurhai o'n teuluoedd mwyaf bregus i ddysgu gartref. Mae gwirfoddoli yn hollbwysig!"**

Pennaeth, Ipswich




## Gwirfoddolwyr yn helpu ysgolion Suffolk gyda phrofion Covid

Gan weithio gyda **Community Action Suffolk**, cefnogodd gwirfoddolwyr yn Ipswich y gwaith o groesawu disgyblion yn ôl i'r ysgol yn ddiogel drwy brofion Covid fel rhan o rôl Volunteering Matters gyda'r **Voluntary Sector Emergencies Partnership**, Iechyd Cyhoeddus Lloegr a'r Adran Addysg.

**"Rwy'n hynod falch o'r ymdrech frechu a phrofi yn Ipswich a ledled y DU. Mae fy nhasgau gwirfoddoli yn cynnwys monitro'r Dyfeisiau Llif Unffordd, gwirio'r amseryddion, a'u marcio nhw'n negatif/amhendant/positif. Roedd gofyn i ni fod yn ofalus a glanhau arwynebau a chyfarpar yn rheolaidd, gan sicrhau eu bod yn lân ac wedi'u diheintio."**

Ian, gwirfoddolwr rheolaidd yn Volunteering Matters a gefnogodd y gwaith profi mewn ysgolion



# Ipswich

## Cymorth i bobl ddigartref ac oedolion mewn risg

Gweithiodd gwirfoddolwyr a staff gyda phobl ddigartref drwy ddau brosiect, sef **Perspectives** a **Safe Journeys**. Wedi'i leoli mewn marchnad a'i ariannu gan Gyngor Sir Suffolk, darparodd y prosiect wybodaeth ac adnoddau i helpu'r rhai sy'n byw ar strydoedd, a dan amgylchiadau digymorth eraill, i lywio'r pandemig yn well a chadw'n ddiogel. Cafodd adborth ei gofnodia'i fwydo'n ôl i helpu'r cyngor i deilwra ei wasanaethau. Cafodd y prosiect y fath lwyddiant nes i Iechyd Cyhoeddus Suffolk ofyn iddo barhau. Roedd hefyd yn caniatáu cymorth arall, megis deintydd yn darparu gwasanaeth galw heibio rheolaidd i bobl ddigartref yn hwb cymunedol Ipswich Volunteering Matters.



- **1** stondin yn Ipswich bob dydd Gwener yng nghanol y dref.
- **483** cyfuniad o gyfarpar diogelu personol wedi'u dosbarthu.
- Wedi cysylltu â thros **600** o bobl.

---

## Mentora pobl ifanc yn Ipswich yn ystod Covid-19

Nid yn unig y parhaodd gweithgareddau monitro pobl ifanc yn Ipswich y llynedd, ond aeth o nerth i nerth. Roedd hyn yn cynnwys Grandmentors, prosiect mentora yn pontio cenedlaethau ar gyfer pobl ifanc sydd â phrofiad o dderbyn gofal, a'r rhaglen Equip, yn darparu mentora ar gyfer pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu'n derbyn hyfforddiant.



- **89%** o'r bobl ifanc a gafodd eu mentora drwy Equip wedi mynd ymlaen i'r byd addysg, y byd gwaith neu hyfforddiant yn ystod y flwyddyn.
- Drwy gydol y flwyddyn, cafodd, **52** o bobl ifanc yn Ipswich eu mentora gan wirfoddolwr.

### Stori Abraham

Gadawodd Abraham ei wlad Eritrea ar droed a gwneud ei ffordd tua Lloegr pan oedd yn 16 oed.Pan gyrhaeddodd Lloegr, roedd bron yn 18 oed a chafodd gefnogaeth gan dîm gofal yr Awdurdod Lleol a argymhellodd iddo gael cefnogaeth gan Grandmentor gwirfoddol hefyd. Ei nod cyntaf oedd cynnal ei statws cyfreithiol ac yna roedd â'i fryd ar fynd i'r brifysgol. Derbyniodd Abraham le ym Mhrifysgol Suffolk ar gwrs nyrsio.

**"Pan ydych chi'n credu na allwch newid eich bywyd, dywedwch wrthych chi eich hun bod rhywun a all helpu i newid eich bywyd."**

Abraham, Ipswich

# Norfolk





## Match and Mentor

Drwy gydol y flwyddyn, parhaodd **Match and Mentor** yn Norfolk i ddarparu cymorth i 45 o unigolion gydag anableddau dysgu, pan oeddynt yn gwarchod eu hunain rhag Covid-19. Roedd y cymorth hwn yn hollbwysig. Er nad oedd yn bosibl darparu cymorth yn bersonol, cyflwynwyd llythyrau, galwadau ffôn a chylchlythyr rheolaidd, a oedd hefyd yn darparu cyswllt â rhieni a gofalwyr.

Mae allgáu digidol yn aml yn ffactor i bobl sydd ag anableddau dysgu, a llwyddodd ein rhaglen Match and Mentor i ennill cyllid i brynu 5 llechen a 5 gliniadur. Darparwyd hyfforddiant a bydd rhagor o sesiynau hyfforddiant allgáu digidol yn y dyfodol.

# Milton Keynes



## Volunteers Drivers’

Ymhlith ein prosiectau yn Milton Keynes, mae cynllun gyrwyr i helpu pobl hŷn gyrraedd apwyntiadau meddygol pwysig ac i blant gyrraedd addysg a chymorth arbenigol. Yn ystod y cyfnod clo, cafodd y cynllun gyrru bwrpas newydd i ddarparu cymorth mawr ei angen. Aeth gwirfoddolwyr hen a newydd ati i siopa a danfon bwyd ar gyfer preswylwyr mewn pentref ymddeol lleol, gan ganolbwyntio ar bobl hŷn unig nad oedd ganddynt rwydwaith cymorth gan deulu lleol. Yn sgil ei lwyddiant, ehangwyd y prosiect hwn i gynnwys ail bentref ymddeol a gwasanaeth casglu presgripsiynau, er mwyn i bobl hŷn a oedd yn hunanynysu gadw’n ddiogel.


Pan ddaeth y cyfnod clo cyntaf i ben, roedd y **Volunteers Drivers’ Service** yn ôl ar ei draed, a chyflawnodd 787 o deithiau diogel, gan gynnwys nifer i apwyntiadau brechu Covid-19.

Dyfarnwyd **Gwobr Maer Milton Keynes am Gyfraniad at y Gymuned** i Wasanaeth Gyrwyr Milton Keynes, i gydnabod eu gwaith o ran addasu i amgylchiadau heb eu tebyg er mwyn parhau i ddarparu gwasanaeth hanfodol i’r gymuned.

“Ar ran yr holl bentrefwyr [preswylwyr] a staff hoffwn ddod i gasgliad drwy ddiolch yn fawr iawn i chi am yr hyn yr ydych wedi’i wneud i ni... Aethoch ati i sefydlu system ragorol ac mae eich timau wedi sicrhau ei llwyddiant; mae caredigrwydd, cyflymder ac effeithiolrwydd wedi bod wrth wraidd y cwbl ac mae’n destun canmoliaeth i chi gyd.”

Cadeirydd y Gymdeithas Preswylwyr, Milton Keynes





# Milton Keynes



## Rhaglen Grandmentors

Parhaodd **Rhaglen Grandmentors** Milton Keynes drwy gydol y pandemig. Cafodd 22 o bobl ifanc sydd â phrofiad o dderbyn gofal eu paru â mentoriaid gwirfoddol yn yr ardal.

### "Cafodd Joni a minnau ein paru yn rhithiol ym Milton Keynes fis Ebrill 2020. Pan ddechreuom siarad, byddem yn siarad dros y ffôn bob ychydig ddyddiau neu neges destun."

Roedd Joni yn isel iawn ac yn ofn. Wedyn, dechreuom ddefnyddio Teams ac roedd hyn o fudd gan y gallem weld ein gilydd. Roedd manteisio ar fynd am dro pan oedd y rheolau yn caniatáu hynny yn arbennig. Drwy ein cyfeillgarwch mentor/mentai, cwblhaodd Joni flwyddyn ychwanegol yn y coleg a dyweda ei bod hi'n wych cael rhywun y gall ddibynnu arno. Erbyn hyn mae wedi sicrhau gwaith gwirfoddol gyda phobl ifanc, ac ni fyddai byth wedi gwneud hyn cyn iddi ymuno â Grandmentors. Ei geiriau hi yw'r rhain, nid fy ngeiriau innau!"


Jane, Mentor, Milton Keynes



Gyda gwreiddiau ym mywyd cymunedol ym Milton Keynes, parhaodd Volunteering Matters i ddatblygu partneriaethau lleol eleni. Roedd hyn yn cynnwys cydweithrediad newydd gyda'r Canal and River Trust. Mabwysiadodd Volunteering Matters adran un filltir o Gamlas Grand Union, a chyflawnwyd nifer o ganlyniadau yn cynnwys cefnogi datblygiad sgiliau.



# Dorset



## Twigs Gardening Club

Mae **Twigs Gardening Club** yn Dorset yn rhan o'n **rhaglen Retired and Senior Volunteers** (RSVP). Mae gan Twigs dîm ymroddedig o 12 gwirfoddolwr a hwythau yw asgwrn cefn y clwb garddio a thros **100 o aelodau** sy'n rhannu awgrymiadau garddio a phlanhigion ac sy'n cymryd rhan ar sail mwy ad hoc. Yn fwy nag erioed eleni, mae Twigs wedi helpu i atal pobl rhag teimlo'n unig. Eleni, ymestynnodd Twigs drwy gyflwyno **Twiglets**, a helpu pobl ifanc i arddio a rhoi seibiant i rieni, gan gynnwys drwy lyfrau gwaith garddio.

### "Rwyf wedi bod yn gwirfoddoli yn Volunteering Matters ers 11 mlynedd, yn cynnal Twigs Gardening Club yn Dorset. Mae wedi bod yn flwyddyn mor brysur."

Cyn gynted ag y dechreuodd y cyfnod clo, gwnaethom drefnu gwiriad llesiant ar gyfer ein holl aelodau – gan ddechrau gyda galwad i weld a oeddynt yn gallu casglu bwyd a meddyginiaeth a'u bod yn gwybod beth i'w wneud petai gofyn iddynt hunanynysu. Gwnaethom gynyddu amlder ein cylchlythyr o fod yn chwarterol i fisol – fel ffordd o gadw cysylltiad a rhoi'r diweddaraf i bawb a rhoi gwybod iddynt eu bod yn rhan o'n cymuned arddio arbennig.


Er mwyn rhoi hwb i bobl dros y Nadolig, gweithiodd Twigs gyda busnesau lleol, gan gynnwys Tesco i wneud bagiau nwyddau i ddangos eu cefnogaeth. Mewn cyfnod pan nad oedd pobl yn gallu gweld eu teuluoedd ac yn teimlo'n isel, wedi dioddef salwch ac wedi colli anwyliaid, roedd yn werth chweil gwybod eu bod yn dal i fod yn rhan o'n cymuned. Cafwyd llond y lle o ddagrau o lawenydd!

Yn ystod Covid, mae cymaint o ymchwydd wedi bod o ddiddordeb mewn garddio. Rwyf mor falch o'm cyd-wirfoddolwyr a sut ydym wedi helpu i gefnogi pobl yn Dorset a pharhau i wirfoddoli a garddio."

Dee Hoy, Twigs Gardening Club, Dorset



# Newcastle



## Volunteer Centre Newcastle

Mae Volunteering Matters wedi cynnal **Volunteer Centre Newcastle** ers 2005, yn gweithredu fel siop un stop ar gyfer popeth yn ymwneud â gwirfoddoli yn y ddinas. Rydym yn cysylltu pobl â chymunedau drwy eu cefnogi i fanteisio ar gyfleoedd gwirfoddoli sydd ar gael ledled y ddinas. Rydym hefyd yn darparu ystod eang o gymorth i Sefydliadau sy'n Cynnwys Gwirfoddolwyr, gan gynnwys hysbysebu eu cyfleoedd gwirfoddoli, rhannu arfer dda o ran Rheoli Gwirfoddolwyr, darparu cymorth seilwaith a bod yn gyfaill beirniadol.

- Mae'r Volunteer Centre yn cefnogi dros **1,000** **o sefydliadau gwirfoddoli.**

Yn ystod y pandemig, gwnaethom barhau i gynnal y Volunteer Centre, gan weithio gyda sefydliadau i recriwtio gwirfoddolwyr i ymateb i'r pandemig a'u cymunedau amrywiol. A ninnau yn y sefyllfa orau i weld yr ehangu a'r newid sy'n digwydd yn y diwydiant gwirfoddoli, gwnaethom gefnogi elusennau ffurfiol a grwpiau cyd-gymorth newydd. Cafodd Newcastle Volunteer Passport ei ddatblygu fel ymateb arloesol i rwystrau a gafodd eu pwysleisio wrth recriwtio gwirfoddolwyr. Mewn partneriaeth â Chyngor Cenedlaethol Mudiadau Gwirfoddol (NCVO), erbyn hyn mae'r pasbort yn cael ei roi dan brawf ar raddfa ehangach, gan weithio gyda llywodraethau lleol a chenedlaethol.

**"Mae'n adnodd gwerthfawr sy'n ein galluogi ni i recriwtio gwirfoddolwyr da ac felly mae hynny'n fy rhyddhau innau i gefnogi ein gwirfoddolwyr a chydlynu ein gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu gan wirfoddolwyr ar gyfer merched a genethod sydd wedi goroesi trais rhywiol."**

Sefydliad Gwirfoddoli Lleol, Newcastle upon Tyne

# Islington, Llundain



Fel rhan o'r **Rhaglen Grandmentors**, gwirfoddolodd menteiod sydd â phrofiad o dderbyn gofal i wella amgylchiadau yn eu cymunedau eu hunain. Dros y flwyddyn ddiwethaf, maent wedi bod ynghlwm â sawl prosiect cymunedol, gan gynnwys gwnïo gynau ysbyty, pacio a danfon parseli i bobl wedi'u hynysu a gweithio mewn cegin gawl ar gyfer pobl ddigartref. Gwnaethant hefyd drawsnewid gardd gymunedol o ofod yn llawn chwyn, wedi'i esgeuluso yn ardd fywiog, yn hafan ar gyfer bywyd gwyllt, gyda phlanhigion, coed a llysiau lliwgar. Pan agorodd yr ysgolion, aeth pobl ifanc ati i ddosbarthu gwisg ysgol ac offer i fynd i'r ysgol.



O ganlyniad i'w gwirfoddoli, cafodd y bobl ifanc wobr gan y **Jewish Volunteering Network** am fod yn un o'r **Timau Gwirfoddol Eithriadol y Flwyddyn.**

# Greenwich, Llundain




## Family Mentors

Mae ein gwirfoddolwyr hyfforddedig yn gweithio gyda theuluoedd sydd ynghlwm â gwasanaethau cymdeithasol, yn grymuso'r teulu i fod yn hunan-gynhaliol a chyflawni eu nodau eu hunain. O ganlyniad i'r gefnogaeth gan wirfoddolwyr a staff, mae teuluoedd wedi'u grymuso i lywio'n well drwy'r pandemig a chadw eu teuluoedd yn ddiogel ac iach.

Y llynedd yn Greenwich, cafodd **94 o deuluoedd** eu hatgyfeirio i gael eu cefnogi gan Fentor Teuluol a chafodd **59** o fentoriaid eu paru â **252 o blant**. Bu i **100%** o'r rhieni a oedd ynghlwm adrodd canlyniadau gwell, gan gynnwys gwelliant o ran sgiliau magu plant a hyder, y gallu i reoli trefn, ffiniau ac ymddygiad, yn ogystal ag ymgysylltu â chyflogaeth a ffyrdd o fyw'n iach.

**"Rwyf wrth fy modd â'r gwasanaeth hwn. Dywedais wrth Barbara fy mod yn ei chael hi'n anodd ymddiried ym mhobl broffesiynol ac roedd hi'n deall. Ar y dechrau, roeddwn yn feichiog gyda fy mhedwerydd plentyn ac mewn gwirionedd nid oeddwn yn gwybod sut y gallent fy helpu i."**

Mae'r gwasanaeth Family Mentors wedi fy helpu i roi trefn ar fy miliau a gwneud cais am fwy o arian pan oedd angen i mi brynu coets ar gyfer fy maban newydd. Mae hi'n gwrando ac wedi fy nghefnogi drwy rai adegau anodd yn ddiweddar gyda fy mhartner. Weithiau rwyf eisiau siarad â rhywun yr wyf yn teimlo sy'n fy neall i."

Rhiant

**"Diolch am eich gwaith parhaus gyda'r teuluoedd – mae eich cymorth yn amhrisiadwy."**

Gweithiwr Cymdeithasol

---

## Rhaglen wirfoddoli yn ysgolion

**Team London Young Ambassadors**, mewn partneriaeth â'r gronfa **#byddaf** yw rhaglen wirfoddoli Maer Llundain ar gyfer ysgolion, sy'n cysylltu pobl ifanc â'u cymunedau drwy weithredu cymdeithasol. Eleni, dechreuasom ein gweithgarwch yn cefnogi ac annog pobl ifanc mewn ysgolion heb fod yn y brif ffrwd a'r rheiny sydd fwyaf mewn risg o gael eu gwahardd. O ganlyniad, aeth pobl ifanc ledled Llundain ati i arwain newid, gan ddatblygu gweithred gymdeithasol flaengar ac effeithiol yn eu cymunedau. Mae'r bobl ifanc eu hunain yn ganolog i ddylunio a llywio gweithredu cymdeithasol lleol.

Yn seiliedig ar weithgarwch y tymor cyntaf, gwnaethom recriwtio **13 o ysgolion** a chysylltu â **12 o ysgolion** eraill drwy ein pecynnau Dysgu Gartref a gyrhaeddodd **430 o bobl ifanc**. Dechreuodd **20 o bobl ifanc** y rhaglen yn y tymor cyntaf – **7 o bobl ifanc** gydag anghenion cymhleth a **13 o bobl ifanc** gydag anghenion addysgu arbennig. Bydd llawer mwy yn ymuno yn fuan.

**"Diolch o galon i chi am heddiw. Cawsom brofiad gwych, ac roedd hi'n arbennig gweld rhai o'r myfyrwyr nad ydynt byth yn rhyngweithio fel arfer yn magu'r hyder i wneud hynny."**

Athro



# Volunteering Matters yng Nghymru

## Casnewydd

Fel partner cyfredol Cyngor Dinas Casnewydd, cefnogodd ein tîm yng Nghymru Wasanaethau Cymdeithasol Casnewydd i sicrhau y gellid bodloni anghenion cymunedol lleol. Gyda'r Cyngor yn atgyfeirio pobl, aeth gwirfoddolwyr, gan gynnwys nifer o'n **Rhaglen Employee Volunteering**, a'r **clwb Rotari** lleol, ati i ddarparu cymorth hollbwysig megis siopa a chyfeillio dros y ffôn ar gyfer pobl unig neu wedi'u hynysu, gan gyfeirio yn aml at gymorth arall yn ôl yr angen. Mewn partneriaeth â Chyngor Dinas Casnewydd a Trussell Trust, danfonodd gwirfoddolwyr barseli bwyd a chyfarpar TG i deuluoedd a oedd yn ei chael hi'n anodd yn ariannol.

- Yng Nghasnewydd, cefnogodd **77 o wirfoddolwyr 227 o bobl, drwy gyflawni 1,996 o dasgau.**

---

## Gweithredu Cymdeithasol Lleol Gwent

Rhoddodd pobl ifanc yng Ngwent bwrpas newydd i'w gweithgareddau ar draws ein rhaglen **SAFE** (Safety Awareness For Everyone) gyfredol a phrosiectau **Mind Matters**, prosiect iechyd meddwl a llesiant i bobl ifanc. Fel 'hyrwyddwyr llesiant ar-lein', datblygodd gwirfoddolwyr y prosiect adnoddau hygyrch i helpu pobl ifanc eraill gadw'n ddiogel ar-lein, hyrwyddo llesiant cadarnhaol a chadw cysylltiadau cymdeithasol yn ystod y cyfnod clo. Drwy gydol y cyfnod clo, cafodd cynnwys Mind Matters a SAFE dros **5,000** o ymweliadau.

**"Mae gwybod y gallwn fod wedi cael effaith ar fywyd rhywun yn ddigon i godi fy nghalon. Pwy a ŵyr, efallai fod yr unigolyn hwnnw wedi cael effaith gadarnhaol ar fywyd rhywun arall, fel bod y cylch positifrwydd yn parhau."**

Hyrwyddwr Llesiant Ar-lein



# Volunteering Matters yng Nghymru

## Welcome Friends

Mae **Welcome Friends**, yn Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful, yn lleddfu unigedd ac arwahanrwydd cymdeithasol i bobl 50 oed a hŷn drwy ymweliadau â'r cartref gan wirfoddolwyr a gweithgareddau grŵp megis grwpiau crefft/gwau, clybiau cinio a grwpiau cymdeithasol. I gefnogi anghenion lleol yn ystod Covid-19, cynhaliodd gwirfoddolwyr weithgareddau cyfeillio a grŵp dros y ffôn yn ogystal ag atgyfeirio pobl ar gyfer parseli bwyd, danfon meddyginiaeth a danfon gwlân gwau i bobl a oedd yn awyddus cadw'n brysur wrth hunanynysu.

- Cafodd **159** o bobl eu cefnogi gan **157** o wirfoddolwyr.



**"Mae fy nghyfeilliwr yn gyfaill i mi, gallwn siarad dros Gymru! Cyn hi nid oeddwn yn cael cyfle i sgwrsio'n iawn, mae pawb mor brysur ac yn poeni am eu teuluoedd"**

Trudy, y Rhondda

---

## Doethineb Gwledig

Mae **Doethineb Gwledig** yn brosiect mewn partneriaeth sy'n cael ei arwain gan bobl hŷn, ac ar eu cyfer, yn Sir y Fflint a Sir Benfro. Mae'r gwirfoddolwyr cymunedol ysbrydoledig yn datblygu prosiectau cyfeillgar i oedran yn eu hardaloedd, gan helpu i leddfu arwahanrwydd cymdeithasol ac unigedd. Daeth gwirfoddolwyr cyfredol ac aelodau'r gymuned Doethineb Gwledig yn Wirfoddolwyr Ymateb i Covid-19, yn cefnogi pobl sydd wedi'u hynysu gydag anghenion ymarferol megis siopa, casglu presgripsiynau a chyfeillio dros y ffôn. Yn y ddwy ardal Doethineb Gwledig, mae **32 o wirfoddolwyr** wedi bod ynghlwm â chyflawni'r gwaith ymateb i Covid-19 a chafodd **74 o bobl** eu cynorthwyo – mae nifer ohonynt wedi dod i ddibynnu ar ein gwirfoddolwyr.

**"Siaradais ag un fenyw ddoe ac mae hi wrth ei bodd gyda'i chyfeilliwr.... roedd ei phositifrwydd i'w deimlo ar ben arall y ffôn. Dywedodd ein bod wedi llonni ei chalon..."**

Atgyfeiriwr y Cyngor, Cyngor Sir Penfro



**"Mae fy iechyd meddwl gwael yn golygu fy mod yn mynd yn sâl iawn os oes rhaid i mi fynd allan – mae fy ngwirfoddolwr wedi tawelu fy meddwl ac wedi fy helpu i gael y pethau yr wyf eu hangen."**

Edie, Sir Benfro

# Volunteering Matters yng Nghymru

## Blaenau Gwent

Mae ein gwaith mewn partneriaeth â **Chyngor Blaenau Gwent** a **Chymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent** wedi galluogi gwirfoddolwyr i gefnogi pobl leol gydag atgyfeiriadau ar gyfer casglu presgripsiynau, danfoniadau siopa, mynd â chi am dro neu siarad gyda rhywun drwy alwadau cyfeillio mewn cyfnod pan mae unigedd ac arwahanrwydd yn effeithio ar filoedd o bobl. Mae gwirfoddolwyr yn parhau i gefnogi preswylwyr ledled Blaenau Gwent, ac wedi cefnogi dros 130 o bobl mewn blwyddyn.

---

## Aciv8 ac Employee Volunteering yn helpu pobl ifanc i gyflawni eu nodau

Mae **Activ8** yn brosiect sy'n gweithredu ar draws Torfaen, Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy, a Chasnewydd yn cefnogi pobl ifanc rhwng 16 a 24 oed nad ydynt mewn gwaith, addysg nac yn derbyn hyfforddiant. Mae Activ8 yn helpu pobl ifanc i ddatblygu sgiliau, hyder a gwybodaeth i'w helpu nhw i fynd ymlaen i wirfoddoli, addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant.

Drwy ein **Rhaglen Employee Volunteering,** rydym wedi gallu cysylltu arbenigwyr gwirfoddol â'r bobl ifanc hyn. Drwy hynny, mae staff **Aviva a National Grid** wedi darparu mentora a gweithdai ac mae **Barclays** wedi cynnal cyfres o weminarau. Mae'r gwaith hwn yn rhan o'r rhaglen Activ8 yn canolbwyntio ar sgiliau allweddol i helpu pobl ifanc i gyflawni canlyniad tymor hirach, gan arwain yn y pendraw at gyflogaeth gynaliadwy llawn amser. O blith y rheiny a gymerodd ran yn y rhaglen yn ystod y flwyddyn, aeth **42% o bobl** ymlaen i wirfoddoli, ac mae **46% yn parhau i fod ynghlwm â'r rhaglen**. Aeth un unigolyn ymlaen i dderbyn hyfforddiant ac aeth un arall i'r byd addysg.



# Volunteering Matters yn yr Alban

## North Lanarkshire, Clackmannanshire, Stirling a Falkirk

Sicrhaodd ein gwirfoddolwyr arbennig a oedd yn ymateb i Covid fod anghenion pobl a oedd yn hunanynysu neu'n gwarchod eu hunain yn dal i gael eu bodloni – casglu siopa a phresgripsiynau, darparu gwasanaeth cyfeillio dros y ffôn a mynd â chŵn am dro. Gallasom wneud hyn drwy bartneriaethau gyda sefydliadau eraill yn y gymuned, gan gynnwys **Cyngor Clackmannanshire, Voluntary Action North Lanarkshire, Stirlingshire Voluntary Enterprise, CVS Falkirk a Clacks Third Sector Interface**. Volunteering Matters oedd y prif sefydliad gwirfoddol yn darparu cymorth gwirfoddol yn Alloa.

## Cyfeillio pobl ieuengach, North Lanarkshire a Clackmannanshire

Rydym wedi bod yn gweithio mewn partneriaeth â **Chyngor North Lanarkshire** ers 1999 i ddarparu gwasanaeth cyfeillio i bobl ifanc rhwng 8 a 18 oed sydd wedi'u hynysu ac yn ddifreintiedig. O ganlyniad i'r pandemig, ymatebodd gwirfoddolwyr a staff i anghenion iechyd a lles pobl ifanc a'u teuluoedd trwy gynnal gwiriadau lles a darparu adnoddau fel pecynnau gweithgaredd lles.

Manteisiodd **48 o bobl ifanc** o North Lanarkshire ar y gwasanaeth drwy dderbyn cymorth yn ystod y flwyddyn. Mae hyn yn cynnwys **23 o bobl ifanc** nad oeddynt wedi'u cefnogi gan y gwasanaeth o'r blaen. Gyda chymorth gan **Gronfa Lesiant Llywodraeth yr Alban**, darparwyd llechi i 30 o bobl ifanc nad oedd unrhyw ffordd arall ganddynt i gysylltu'n ddigidol. Cefnogodd Cyfeillwyr yn North Lanarkshire a Clackmannanshire bobl ifanc drwy gydol y pandemig mewn ffyrdd creadigol o bell, gan gynnwys cymryd rhan mewn cwisiau, gweithgareddau pobi o bell, chwarae gemau ar-lein, sgwrsio a gwylio rhaglenni dogfen diddorol a ffilmiau gyda'i gilydd ar-lein.

## RSVP, Forth Valley



Mae'r RSVP (the Retired and Senior Volunteer Programme) yn gweithredu yn ysbytai Forth Valley. Cyn y pandemig, nod y gwirfoddolwyr oedd sicrhau bod ymweld â'r ysbyty yn brofiad gwell i gleifion ac ymwelwyr. Roedd rolau gwirfoddol yn amrywio'n ddramatig gan gynnwys cyfeirio ymwelwyr at y lleoliadau cywir a sgwrsio gyda chleifion.

Yn dilyn y pandemig, bu rhaid i nifer o wirfoddolwyr yr RSVP roi'r gorau i wirfoddoli oherwydd bod rhaid iddynt warchodd eu hunain. Wedi dweud hynny, aeth ein cydlynydd gwirfoddolwyr ar gyfer gwaith gwirfoddoli mewn ysbytai yr RSVP ati i sefydlu rôl wirfoddol ymateb i Covid-19. O ganlyniad, cafodd gwirfoddolwyr newydd eu recriwtio i gefnogi GIG Forth Valley. Roeddem wrth ein bodd bod Rosemary Fletcher, gwirfoddolwr â'r RSVP, wedi'i dyfarnu ag MBE yn Anrhydeddau'r Flwyddyn Newydd am ei blynyddoedd lu o wirfoddoli, ac yn enwedig am ei chymorth yn ystod Covid.

# Volunteering Matters yn yr Alban

## Action Earth



Mae **Action Earth** yn gynllun grantiau amgylcheddol, wedi'i ariannu gan **NatureScot**, sy'n cefnogi gwirfoddolwyr ledled yr Alban i wella mannau gwyrdd lleolyn rhai ardaloedd mwyaf difreintiedig yr Alban. Mae cyllid ar gael i brynu planhigion, offer a deunyddiau gyda grantiau lefel uwch ar gyfer prosiectau sy'n ymwneud â phobl sydd ag anghenion iechyd a cymdeithasol penodol. Ymatebodd prosiectau Action Earth gyda gwytnwch arbennig yn ystod y pandemig, gyda chanlyniadau rhagorol a aeth y tu hwnt i'r disgwyliadau yn ystod y cyfnodau anodd hyn.

- Cafodd **121** o brosiectau eu cynnal gan **3,312** o wirfoddolwyr.
- Roedd **70** o'r prosiectau hyn yn ymwneud ag iechyd.

**"Profiad cadarnhaol iawn oedd cael fy nghefnogi gan Action Earth! Teimlwn fod ein prosiect bach yn rhan o gyfraniad cadarnhaol llawer mwy tuag at fyd lle all gwelliannau bach fod yn fuddiol pan ddônt at ei gilydd."**

---

## Family Supporters Caeredin



Sefydlwyd **Family Supporters** Caeredin ym mis Medi. Mae **42 o wirfoddolwyr** eisoes wedi'u recriwtio a'u hyfforddi ac mae **14 teulu** eisoes ar y rhaglen. Mae gwirfoddolwyr yn cefnogi teuluoedd gyda phethau fel eu hiechyd, llesiant, addysg, cyflogaeth, tai a chyllid. Mae hyn yn helpu teuluoedd i lywio systemau a phrosesau ac yn sicrhau eu bod yn gallu cyrchu gwasanaethau sydd eu hangen arnynt.

---

## Equip

Mae **Equip** yn darparu cyfleoedd mentora i bobl ifanc ledled Wee County 15-18 oed sydd angen arweiniad a chefnogaeth ychwanegol neu nad ydyn nhw eisoes mewn Addysg, Cyflogaeth neu Hyfforddiant (NEET). Mae'r Mentoriaid Gwirfoddol yn cefnogi'r bobl ifanc yn ymarferol (megis ysgrifennu CV a sgiliau cyfweld) yn ogystal ag yn emosiynol (magu hyder, gwytnwch, ac annibyniaeth) gan leihau arwahanrwydd cymdeithasol ac unigedd. Yn y chwe mis ers gweithredu'r prosiect, rydym wedi hyfforddi bron i **20 o wirfoddolwyr gwych** ac mae gennym dros **10 o bobl wedi'u paru ar hyn o bryd** a lwyddodd i gwrdd wyneb yn wyneb yn sgil y cyfyngiadau yn ymlacio. Mae'r bobl hyn sydd wedi'u paru wedi cael dechrau arbennig.



# Rhaglenni Cenedlaethol sydd â Ffocws Lleol

## Family Mentors and Family Supporters

Mae Volunteering Matters wedi bod yn gweithio'n weithredol ers dros deg mlynedd gyda theuluoedd sydd ynghlwm â gwasanaethau cymdeithasol. Caiff gwirfoddolwyr eu hyfforddi a'u cefnogi gan staff, cyn darparu cymorth wythnosol teilwredig i'r teulu, grymuso'r teulu i fod yn hunan-gynhaliol, eu hisgyfeirio rhag eu cynlluniau diogelu plant a chyflawni nodau mae'r teuluoedd eu hunain wedi'u sefydlu. Mae Family Mentors yn darparu cymorth yn **Southend, Greenwich** a **Waltham Forest**, ac mae Family Supporters yn gweithredu yng Nghaeredin.

- Eleni mae **276** o wirfoddolwyr wedi cefnogi **912** o bobl.

Mae ein **traciwr effaith** newydd, a gafodd ei gyflwyno eleni, yn tracio canlyniadau'r teuluoedd, gan ganolbwyntio yn aml ar: Dai a Chyllid; Addysg, Hyfforddiant a Chyflogaeth, ac Iechyd a Llesiant

Yn **Southend** dangosodd y traciwr effaith fod **88%** o deuluoedd bellach angen ychydig neu ddim cefnogaeth gyda bywyd ac ymddygiad ysgol. Mae hyn yn gynnydd o 63% mewn teuluoedd. Roedd **50%** o'r teuluoedd yn ariannol annibynnol. Mae hyn yn **gynnydd o 25%** yn y teuluoedd nad oedd angen cymorth erbyn diwedd y rhaglen.

## Stori'r teulu Sadiq

Cyn iddynt ymuno â'r rhaglen Family Mentors, roedd angen cymorth ar y teulu Sadiq yn Llundain i wella eu sefyllfa ariannol. Erbyn y diwedd, llwyddasant i gael y cymorth ariannol cywir a gwella eu hamodau byw yn y cartref. Helpodd y mentor gwirfoddol i sicrhau adnoddau i gynorthwyo gydag addysgu gartref a chefnogi plentyn hŷn i baratoi at ei yrfa.

Yn ogystal, helpodd fentor y teulu y rhiant i wella ei iechyd a'i lesiant drwy geisio cymorth gan ei Feddyg Teulu lleol a pharatoi prydau bwyd cartref gyda'i gilydd. Bu i'r amser a dreuliasant yn coginio a bwyta gyda'i gilydd atgyfnerthu eu hamser teuluol a gwella eu llesiant yn sylweddol.





# Grandmentors

Mae **Grandmentors** yn brosiect mentora sy'n pontio cenedlaethau ar gyfer pobl ifanc sydd â phrofiad o dderbyn gofal. Mae'r grŵp hwn o bobl ifanc ymhlith y cryfaf a'r mwyaf gwydn yn unrhyw gymuned. Drwy'r gallu i fentora, caiff pobl ifanc sydd â phrofiad o dderbyn gofal eu cefnogi i fod yn oedolion ymreolaethol, galluog, a grymus.

- Cafodd **243** o bobl ifanc sydd â phrofiad o dderbyn gofal eu cefnogi gan wirfoddolwyr yn ystod y flwyddyn. A hynny mewn deg lleoliad: **Islington, Milton Keynes, Bradford, Wiltshire, Hounslow, Brent, Wandsworth, Wolverhampton, Warwickshire** a **Suffolk**.
- Yn ystod 2020, cyflwynasom traciwr effaith newydd i dracio'n ofalus y canlyniadau ar gyfer menteiod.
- Dechreuodd **5** o'r menteiod yn y **Brifysgol** ym **mis Medi 2020**.

Fel rhan o'r Rhaglen Grandmentors yn Swydd Warwig, cefnogwyd menteiod sydd â phrofiad o dderbyn gofal i reoli eu prosiectau gweithredu cymdeithasol eu hunain yn y gymuned. Creodd ein mentai brosiect a oedd yn paratoi a darparu bocsys mislif ar gyfer genethod ifanc sy'n gadael gofal ar ôl bod drwy'r profiad a dweud "mae diffyg cymorth yn aml gyda mislif a phopeth a ddaw law yn llaw gydag ef." Cefnogodd y mentor gwirfoddol yr unigolyn ifanc hwn i ddod o hyd i gyllid i archwilio'r sgiliau sy'n ofynnol i reoli'r prosiect hwn a gwneud cais am gymorth gan fusnes lleol er mwyn ei gadw'n gynaliadwy.

Yn ystod dathliadau Eid, cafodd rhaglen Grandmentors yn Wolverhampton roddion bwyd gan wirfoddolwr, ar gyfer menteiod a oedd yn dathlu Eid. Danfonodd Cydlynydd y Prosiect y bwyd a'r pecynnau i bob unigolyn ifanc a oedd yn dathlu.

**"Gwych oedd gweld eu gwerthfawrogiad a'u llawenydd mewn perthynas â'r rhoddion".**

# Stori Kai

Cyflawnodd Kai ei nodau drwy dderbyn gwerth 20 mis o gymorth gan fentor a gweithio mewn partneriaeth â gwasanaethau allweddol eraill. Helpodd ei fentor ef i sicrhau eiddo a'i weddnewid yn gartref. Ysmygodd lai ac yn y pendraw rhoddodd y gorau i ysmygu. Rhoddodd drefn ar ei sefyllfa ariannol a helpodd y mentor ef i greu CV ac aeth gydag ef i'r ganolfan waith er mwyn iddo wneud cais am swyddi ac yn y pendraw llwyddodd i fynd yno ar ei ben ei hun a bu'n ddigon hyderus i wneud ceisiadau ei hun. Sicrhaodd waith achlysurol ac yna swydd lawn amser. Erbyn hyn mae mewn perthynas sefydlog a gall brynu anrhegion i'w bartner (profiad sy'n codi gwên ar ei wyneb).



# Employee Volunteering yng Nghymunedau Lleol

Rydym ni'n credu bod gan bawb fudd yng nghymunedau lleol, gan gynnwys busnesau a'u gweithluoedd. Drwy ein **rhaglenni Employee Volunteering**, llwyddodd busnesau i gynnwys eu cyflogeion mewn partneriaethau hirdymor a digwyddiadau un tro gyda grwpiau cymunedol, elusennau, ysgolion a cholegau lleol.

Mae cyfranogwyr Employee Volunteering wedi rhoi o'u hamser, eu sgiliau, eu brwdfrydedd, a'u hegni ledled y DU, drwy ddarparu gweithdai, gweminarau, gweithgareddau, digwyddiadau rhithiol yn ogystal ag y tu ôl i'r llen drwy rannu sgiliau unigryw er mwyn atgyfnerthu a datblygu unigolion ac elusennau neu sefydliadau cyfan hyd yn oed. Fel y rhestrir yn rhywle arall yn yr adroddiad hwn, roedd cyfranogwyr Employee Volunteering hefyd yn rhan o ymatebion cymunedol ehangach a wnaethpwyd gan Volunteering Matters.

Yn ystod y flwyddyn, cefnogodd **932 o gyflogeion ar y rhaglen Employee Volunteers** o wyth busnes **54 o bartneriaid cymunedol gwahanol** a naw prosiect Volunteering Matters.

### "Diolch am y cyfle i gymryd rhan â'r rhaglen sgiliau iaith SPEAK. Roedd hi'n brofiad gwerth chweil gwneud cyfraniad bach at waith mor werthfawr yn cysylltu dinasyddion lleol â mudwyr a ffoaduriaid."


James, Gwirfoddolwr Barclays

### "Hoffwn ddiolch i chi gyd am eich cymorth parhaus yn gweithio gyda'ch menteiod. Rydym wedi wynebu heriau hollol newydd yn ystod y flwyddyn, ond rwy'n wirioneddol gwerthfawrogi'r gwaith yr ydych wedi'i wneud gyda'n pobl ifanc."

Pennaeth Cynorthwyol, Mulberry Academy Shoreditch



### "Mae Anna wedi rhoi'r hyder i mi godi fy uchelgeisiau o ran gyrfa a fy helpu i ganolbwyntio ar nodau tymor byr a chanolig er mwyn llwyddo"



Mentai myfyrwyr yng ngholegau Harringey, Enfield a Gogledd Ddwyrain Llundain







## #byddaf

Gyda chefnogaeth gan dros **1,000 o sefydliadau** ledled y DU, nod **#byddaf** yw datblygu gweithredu cymdeithasol - gwirfoddoli, codi arian, mentora ac ymgyrchu - yn arferiad i bobl ifanc rhwng 10 a 20 oed. Ar ddechrau 2021, llwyddodd **Volunteering Matters** ac **UK Youth** i ddod ynghyd i ffurfio consortiwm a fydd yn darparu cydlyniant i'r rhaglen ar gyfer y bum mlynedd nesaf. Gweledigaeth ein partneriaeth yw datblygu #byddaf o fod yn ymgyrch i symudiad. Ein cred gyffredin yw y dylai bob plentyn ac unigolyn ifanc gael ei gefnogi a'i rymuso i wneud gwahaniaeth cadarnhaol mewn perthynas â'r problemau sy'n effeithio ar eu bywydau, eu cymunedau, a chymdeithas yn ehangach.

---

## Cefnogi Llywodraeth y DU

VCS Emergencies Partnership

Yn ystod y flwyddyn, roedd Volunteering Matters yn aelod gweithredol o **The Voluntary and Community Sector Emergencies Partnership (VCSEP)**. Roedd y Bartneriaeth Argyfyngau yn dwyn ynghyd sefydliadau lleol a chenedlaethol i gyflawni ymateb mwy cydlynol i argyfyngau. Ei dyhead yw cyflwyno'r cymorth cywir i'r bobl gywir ar yr adeg gywir. A hyn i gyd gyda'r nod cyffredinol o gefnogi cymunedau ac unigolion yn ystod Covid-19. Mae hon wedi bod yn ymdrech gydweithredol go iawn.

---

## National Volunteering Coordination Cell

Fel rhan o'i rôl o fewn **VCSEP**, galwodd Volunteering Matters ar **The National Volunteering Coordination Cell (NVCC)** mewn perthynas â Covid-19. Roedd y Cell yn gweithio bron iawn fel pwynt unigol ar gyfer y rhyngwyneb rhwng y Llywodraeth a'r Sector Gwirfoddol a Chymunedol i ddarparu cymorth a chyngor ar wirfoddoli. Roedd hyn yn golygu y cafodd Adrannau'r Llywodraeth eu cynghori ar le y dylent ganolbwyntio ymdrechion gwirfoddolwyr i gael yr effaith fwyaf ac ar yr un pryd osgoi'r camgymeriadau posibl a ddaw gyda rhoi gwirfoddolwyr mewn swyddi a fyddai'n anaddas.







# Journey Makers

Ynghyd â'r **Adran Drafnidiaeth**, cydweithiodd Volunteering Matters â phartneriaid lleol, sefydliadau cymunedol a gwirfoddolwyr i gydlynu rhaglen cymorth gwirfoddol genedlaethol i gynorthwyo teithwyr mewn hybiau trafnidiaeth wrth i'r llywodraeth lacio cyfyngiadau Covid-19 i helpu'r DU i ddod ar ei thraed yn ddiogel unwaith eto wrth iddi ddechrau ail-adeiladu wedi'r argyfwng dinistriol.

- Roedd y prosiect hwn yn cwmpasu **84** o orsafoedd, gyda **460** o wirfoddolwyr unigol yn cyfrannu **11,386** awr o'u hamser.

Er gwaethaf y llywio cenedlaethol, menter gymunedol oedd **Journey Makers** yn y bôn, yn sicrhau bod partneriaid lleol a phobl leol yn dylunio ac yn cyflawni eu datrysiadau eu hunain.

**"Fi yw sylfaenydd The RecordShop, menter gymdeithasol yn Wood Green, Llundain. Mae'n ofod cerddoriaeth amlbwrpas sy'n gwneud gwahaniaeth, yn helpu pobl ifanc, 16-25 oed o aelwydydd incwm isel i ddilyn eu hanrhydedd mewn cerddoriaeth a magu hyder a gwella eu cyfleoedd mewn bywyd.**

Mewn sawl ffordd, mae Covid-19 wedi cael effaith ddinistriol ar bobl ifanc, cymunedau lleol a mentrau cymdeithasol. Ond un o'r pethau cadarnhaol sydd wedi digwydd eleni yw magu partneriaeth â Volunteering Matters fel rhan o'r cynllun Journey Makers. Gallodd y bobl ifanc sydd ynghlwm â The RecordShop wirfoddoli yng ngorsaf Tottenham Hale a gorsaf Finsbury Park, yn cynghori pobl leol o'r canllawiau teithio newydd ac felly eu helpu i ddechrau teithio eto - yn ddiogel. Yn ogystal â'r profiad gwirfoddoli â chymorth, llwyddais i roi o'm hamser yn ein stiwdio recordio rhwng y ddau gyfnod clo.

Manteisiodd y **25 o bobl ifanc** a oedd ynghlwm â'r bartneriaeth hon i'r eithaf, gan gynnwys cyfansoddi cân newydd sbon. Cafodd un unigolyn ifanc wobr Point of Light am wirfoddoli gan y Prif Weinidog. Llwyddodd nifer ohonynt i ddefnyddio'r profiad gwirfoddoli ar eu CV. Atgyfnerthodd hyn fy mhrofiad i o reoli prosiectau hefyd. Yn fwy cyffredinol, aethom ni i gyd ati i gefnogi ein cymunedau, annog ein gilydd i ddal ati a 'gwneud ein rhan'."

Mary Otumahana, Sylfaenydd The RecordShop, Llundain

Journey Makers.





## Norfolk Knitters and Stitchers

Ar gais y **Voluntary Sector Emergency Partnership**, addasodd **Norfolk Knitters and Stitchers** eu gweithgareddau arferol i gyflenwi gorchuddion wynebau fel un o'r mesurau i alluogi pobl ddigartref yn Bradford gadw'n ddiogel yn ystod Covid. Roedd y newid hwn yn ffocws y gwirfoddolwyr hefyd yn golygu y gallai Gwirfoddolwyr Hŷn ac Wedi Ymddeol yn Norfolk barhau i deimlo'n rhan o'r gymuned wirfoddoli gan ddarparu cymorth hollbwysig i'r rheiny a oedd mewn angen.

- Cafodd **1,540** o orchuddion wyneb eu creu.

**"Llwyddodd un fenyw i greu 137 o orchuddion. Bu wrthi tan berfeddion! Mae'n braf cael gwybod ein bod wedi helpu pobl sydd wirioneddol mewn angen."**

Linda, Trefnwr Gwirfoddolwyr o Norfolk Knitters and Stitchers

---

## Cyfeillio Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi

Cafodd y **prosiect Cyfeillio** ei ddatblygu rhwng **Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi** a sawl sefydliad arall i helpu i gynorthwyo pobl sy'n gwneud eu dedfryd yn y gymuned a'r rheiny sy'n ddioddefwyr trais. Darparodd gwirfoddolwyr gymorth allweddol a brys i gefnogi'r bobl hyn. Hyd yma, mae 481 o bobl wedi cael eu hatgyfeirio at y gwasanaeth. Roedd y cymorth hwn yn arbennig o fuddiol pan oedd gwasanaethau yn y gymuned yn brin oherwydd COVID-19.

- Mae **76%** o'r bobl a oedd yn cymryd rhan yn credu bod y galwadau wedi gwella eu **hymdeimlad o lesiant**.
- Mae **78%** o'r bobl a oedd yn cymryd rhan yn credu bod eu galwadau wedi gwella eu **hyder**.
- Cafodd **73%** o bobl fudd mewn **siarad ag unigolyn** nad oedd yn feirniadol.

**"Arferwn adael y tŷ unwaith yr wythnos ond nawr rwy'n gadael y tŷ yn fwy aml o lawer, rwy'n teimlo bod mwy o anogaeth i fynd allan. Mae fy hyder wedi datblygu'n sylweddol ers cael y galwadau ffôn hyn ac rwy'n falch y cefais fy atgyfeirio"**

Cyfranogwr Cyfeillio Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi

---

## Profion Cyflym mewn Ysgolion

Roedd yr **NVCC** yn rhan o gydweithfa a gefnogodd y gwaith o drefnu profion cyflym mewn ysgolion pan ddechreuodd dysgu wyneb yn wyneb eto ym mis Mawrth 2021. Mewn partneriaeth ag **Ambiwlans Sant Ioan** a'r **Gwasanaeth Gwirfoddol Brenhinol**, cefnogodd gwirfoddolwyr gyda pheilotau profi yn Wigan ac Ipswich i fwrw amcan o'r gofynion a oedd eu hangen i weithredu'r profion cyflym parhaus. Roedd y rhaglen hon yn caniatáu i brofion cyflym gael eu cynnal yn effeithiol ac roedd yn cyfrannu at ddiogelu parhaus iechyd staff a disgyblion yn ysgolion. O ganlyniad, roedd gan ysgolion fwy o allu i reoli'r dychweliad i addysgu wyneb yn wyneb a lleihau'r risg o ledaenu Covid-19.

VOLUNTEERING MATTERS

# Afterword



The last year has been an incredibly challenging 12 months for our volunteers, staff and trustees. It was remarkable to witness how rapidly and positively everyone involved in Volunteering Matters' activities - our staff, volunteers and the people they support - responded to the crisis as different needs emerged within communities across England, Scotland and Wales.

It has been a testament to the support of our partners and funders that existing funding could be reallocated to meet the needs of communities, expertise could be shared to meet emerging situations and new links made across sectors to put volunteering at the heart of the response to the crisis.

And finally, on behalf of the Trustees, I would like to thank everyone involved in the Volunteering Matters family, whether volunteers, our staff team, funders, partners, and the communities we work with. Thank you for all the effort, dedication and energy shown over such a difficult and challenging time.

**Anne Heal**
Chair of Trustees
Volunteering Matters

Supported by players of PEOPLE'S POSTCODE LOTTERY
Awarded funds from POSTCODE SUPPORT TRUST

**Diolch yn arbennig am y gefnogaeth gan chwaraewyr People's Postcode Lottery, yn dyfarnu cyllid o'r Postcode Support Trust, sydd wedi cefnogi ein gwaith ledled Cymru, Lloegr, a'r Alban.**

**volunteeringmatters.org.uk T: 020 3780 5870 @volunteering_uk**

Volunteering Matters, The Levy Centre, 18-24 Lower Clapton Road, London, E5 0PD. Prif swistfwrdd: 020 3780 5870. Hawlfraint © 2021 Volunteering Matters. Mae Volunteering Matters yn elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr, rhif 291222, ac yn yr Alban, rhif SC039171. Mae Volunteering Matters yn gwmni cyfyngedig drwy warant, rhif 1435877. Cyhoeddwyd Hydref 2021.